
BDA The Association of UK Dietitians



# Deietegwyr: Yr allwedd i ddatgloi atal ac ymyrraeth gynnar

Nodi’r blaenoriaethau a’r heriau sy’n wynebu deietegeg yng Nghymru, a rhai o’r atebion yr ydym yn credu y gall pleidiau gwleidyddol eu gweithredu i fynd i’r afael â nhw.



1

## Cefnogi'r gweithlu deietegol

- **Mynd i'r afael â thanstaffio** trwy gynllun gweithlu hirdymor ar gyfer gweithwyr perthynol i iechyd. Dylai hyn gynnwys gwella cynllunio gyrfa ar gyfer deietegwyr a gweithwyr cymorth deieteteg, fel bod gennym gyfraddau cadw staff gwell a recriwtio wedi'i dargedu.
- **Ymrwymo i gyflog teg trwy ariannu'n llawn gynllunio'r gweithlu** - mynd i'r afael â dirywiad cyflog mewn termau real trwy godiadau cyflog uwchlaw chwyddiant a chyhoeddi amserlen glir ar gyfer adfer cyflog y GIG i lefelau cystadleuol.
- **Gwella effeithlonrwydd** trwy fuddsoddi mewn uwchraddio digidol ac archwilio ehangu hawliau presgripsiynu sylfaenol, cydweithio â Llywodraeth y DU a rhoi pwysau arni i archwilio sut y gellid cyflawni hyn yng Nghymru.

**Read in full via the QR code**

2

## Buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant

- **Gwella mynediad at gyrsiau deieteteg prifysgol**. Mae hyn yn golygu cynnal cyllid ar gyfer lleoedd presennol, sicrhau mynediad at gyllid cynhaliaeth digonol, sicrhau bod opsiynau astudio rhan-amser ac opsiynau astudio hyblyg eraill ar gael a hyrwyddo cyrsiau mynediad gwyddoniaeth.
- **Cymryd camau i wneud gyrfa mewn deieteteg yn fwy hygyrch** trwy greu llwybrau amgen wedi'u hariannu'n llawn i'r proffesiwn, megis prentisiaethau gradd. Hoffem hefyd weld cynllunio gyrfaoedd gwell ar gyfer myfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn deieteteg, mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru.
- **Sicrhau bod gan ddeietegwyr a gweithwyr cymorth deieteteg well mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant**, gan gynnwys amser â thâl wedi'i glustnodi i wneud y rhain.

3

## Ymddiried mewn deietegwyr ar bolisi bwyd

- **Archwilio opsiynau i ehangu ymhellach brydau ysgol am ddim mewn ysgolion** uwchradd a gwella addysg bwyd mewn ysgolion yn fwy cyffredinol drwy'r dull ysgol gyfan. Dylid parhau i fonitro'n agos ganlyniadau prydau ysgol am ddim cyffredinol mewn ysgolion cynradd.
- **Sicrhau cyfranogiad deietegwyr iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu, dylunio a, lle bo'n briodol, gweithredu polisi a rheoliadau bwyd**. Dylai hyn gynnwys gweithredu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.
- **Sicrhau bod gwaith ar draws y sector cyhoeddus yn gwella maeth y cyhoedd a chydraddoldeb iechyd**. Creu Cynllun Cydnerthedd Bwyd Cenedlaethol, mewn partneriaeth â deietegwyr, i gyflawni hyn drwy wella mynediad diogel at iechyd a deietau cynaliadwy.

bda.uk.com